Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 276 (Cymru) – 8 Gorffennaf 2020**

## Newidiadau etholfraint: ymgyrch gyfathrebu newydd

Fel rydych eisoes yn gwybod, mae pobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion tramor cymwys yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd flwyddyn nesaf am y tro cyntaf. Gyda chynulleidfaoedd newydd i ymgysylltu, rydym wedi datblygu ymgyrch gyfathrebu newydd ac eisiau rhannu ein cynlluniau gyda chi.

Rydyn ni am groesawu'r rhai sydd newydd eu rhyddfreinio i ddemocratiaeth, ac felly mae'n briodol bod ein hymgyrch hefyd yn canolbwyntio ar y neges hon. Lansiwyd ein hymgyrch “Croeso i'ch pleidlais” yr wythnos diwethaf, a bydd yr ymgyrch yn rhychwantu tri mis o weithgareddau i ymgysylltu â phobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion tramor. Gan ddefnyddio Facebook, Instagram, Snapchat a sianeli digidol, rydym am ddechrau'r sgwrs ymhlith y rhai sydd newydd eu rhyddfreinio cyn i'r etholiadau gael eu cynnal y flwyddyn nesaf.

**Pa adnoddau sydd ar gael, a sut allwch chi helpu?**
Rydym nawr wedi cyhoeddi ein hadnoddau Saesneg a Chymraeg ar ein gwefan i chi eu defnyddio. Gyda'r adnoddau hyn, byddwch chi'n gallu codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau etholfraint a helpu i apelio at gynulleidfa nad ydyn ni wedi gorfod ymgysylltu â hi o'r blaen.

Mae'r set o adnoddau yn cynnwys:

- Poster A4
- Cynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'i animeiddio a statig
- Baner gwe (fformat MPU)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk a byddwn yn hapus i helpu.

## Cofrestriad etholiadol: deunyddiau pleidleiswyr

Fel y nodwyd ym Mwletin 271, rydym wedi cyhoeddi ein cyfres o ddeunyddiau pleidleiswyr wedi'u diweddaru, a oedd yn cynnwys tri thempled amlen newydd. Bwriad y rhain oedd eich cefnogi chi i

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Newidiadau etholfraint: ymgyrch gyfathrebu newydd**

Gwybodaeth am ein hymgyrch gyfathrebu newydd i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau etholfraint, a chysylltiadau ag adnoddau ategol.

**Cofrestriad etholiadol: deunyddiau pleidleiswyr**

Gwybodaeth ac arweiniad ar ddyluniad amlen.

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.***

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar**

gynhyrchu amlenni a fyddai'n cynyddu'r siawns y bydd pobl yn sylwi arnynt ac yn eu hagor.

Fodd bynnag, rydym bellach wedi derbyn adborth gan nifer o weinyddwyr etholiadol sy'n awgrymu nad yw'r rhain yn profi'n ddefnyddiol yn ymarferol. Mae hyn oherwydd bod gan wahanol wasanaethau postio eu manylebau eu hunain ar gyfer yr hyn sydd angen ei gynnwys ar amlen a'r sefyllfa orau ar gyfer gwahanol elfennau, felly nid yw un templed yn gallu cwrdd â'r holl fanylebau. Er ein bod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer y mater hwn yn ystod y broses ddatblygu, roeddem o'r farn y byddai'r templedi a ddarparwyd gennym yn fan cychwyn defnyddiol, ar ôl ystyried yr adborth a gawsom gan ystod o randdeiliaid pan wnaethom ymgynghori ar y drafftiau, ond yn anffodus nid yw hynny wedi bod yn wir.

Felly rydym wedi penderfynu tynnu'r templedi hyn o'n cyfres ac yn lle hynny canolbwyntio ar ddarparu arweiniad i'ch helpu chi i benderfynu pa negeseuon i'w cynnwys ar eich amlenni eich hun. Mae ein canllaw yn seiliedig ar ganlyniadau ein profion defnyddwyr ac mae'n pwysleisio y dylai'r amlenni: fod yn frown; cynnwys logo eich cyngor ar y blaen; ac yn cynnwys un o'r negeseuon rydyn ni'n eu hawgrymu yn ein canllaw - mae'r negeseuon yn amrywio yn dibynnu ym mha wlad rydych chi'n gweithio a'r math o lythyr neu ffurflen rydych chi'n ei hanfon. Os oes gyda chi unrhyw gwestiyau neu bryderon am y broses yma, cysylltwch infowales@comisiwnetholiadol.org.uk.

**Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwyd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2020